Y sant yn tawelu'r cŵn

Dyfalbarhad / caredigrwydd

Oes gennych chi gi? Pa fath o gi ydi o? Fydd o weithiau yn cyfarth? Ydi o'n un chwareus? Mae'r stori hon yn sôn am gŵn gwyllt a swnllyd. Ond fe dawelodd y sant gyfarthiad y cŵn.

Drwy'r dydd byddai Padrig yn gofalu am y defaid a'r moch. Byddai'n rhedeg i lawr y llethrau ar ôl y defaid. Byddai'r ffermwr yn dod heibio o dro i dro. Fyddai o byth yn dweud gair wrth Padrig. Un diwrnod, pan oedd Padrig yn eistedd ar y graig yn gwylio'r defaid yn pori, teimlai fod Duw yn galw arno. Roedd ef eisiau dweud wrth y bobl i gyd am Dduw. Roedd rhaid gadael y moch a'r defaid.

Un noson, a'r lleuad wedi codi dros y bryn, cychwynnodd Padrig ar ei daith tua'r môr. Doedd yna ddim ffyrdd na llwybrau bryd hynny. Rhaid oedd croesi'r tir a dringo'r mynyddoedd. Cerddodd Padrig drwy'r nos dan olau'r lleuad. Pan dorrodd y wawr, gwelai Padrig fod yna dŷ bychan yn ymyl. Roedd mwg glas-ddu yn codi i'r awyr. Curodd y drws. Daeth hen wreigan i'r drws.

"Rwyt ti ar dy daith yn fore iawn," meddai wrtho. "Tyrd i mewn i gael tamaid i'w fwyta. Dyma i ti ddarn o fara a llymaid o laeth enwyn."

Eisteddodd Padrig wrth ochr yr hen wreigan. Dechreuodd yr hen wreigan holi, "I ble'r wyt ti'n mynd yr adeg yma o'r bore?"

"Rwy'n mynd i lawr tua'r môr. Mae yna long yn hwylio oddi yno," meddai Padrig.

"O! mae'r daith yn hir ac mae hi'n beryglus iawn dros y tir," meddai, " a chofia, bydd di'n ofalus pan ddoi at y tir corslyd."

"Rwyf wedi arfer efo'r math yna o dir. Bugeilio defaid a moch roeddwn i'n arfer ei wneud. Rwy'n cofio tynnu ambell ddafad oedd wedi mynd i drafferthion yn y gors," meddai Padrig wrth yr hen wraig.

"Pan ddoi di at y gors," sibrydodd yr hen wreigan, "fe weli eneth a'i gwallt yn ddu fel y frân, a mantell goch amdani. Bydd hi yn sicr o dy arwain yn saff ar draws y gors."

Cychwynnodd Padrig ar ei daith. Cyrhaeddodd y gors. Ni

welai neb yn unman. Edrychodd i bob cyfeiriad a phwy a welai yn sefyll wrth graig fechan ond y ferch roedd yr hen wraig wedi sôn amdani. Helpodd Padrig i groesi'r gors yn saff. Tynnodd Padrig groes arian o'i boced a'i rhoi i'r ferch ifanc.

"Fe gei di hon i gofio amdana i," meddai Padrig. Ffarweliodd â'r ferch. Ymhen rhai dyddiau cyrhaeddodd y porthladd. Yno, roedd llong yn barod i hwylio. Ond fe gododd storm enbyd. Roedd capten y llong yn barod i gychwyn gyda chŵn hela ar fwrdd y llong. Roedd y cŵn yn anodd i'w trin. Roedd Padrig wedi arfer efo anifeiliaid. Gofynnodd i'r capten, "Ga i helpu i roi trefn ar y cŵn?"

"Na chei," meddai'r capten yn flin. Ond roedd Padrig yn dal i anwesu'r cŵn. Beth oedd yn mynd i ddigwydd os na châi fynd ar y llong. Dechreuodd weddïo, "O Dduw, beth a wnaf yn awr? Agor y ffordd i mi."

Daeth un o'r llongwyr at Padrig, "Mae'r capten yn gofyn fuaset ti'n hoffi dod i'n helpu efo'r cŵn?"

"Wrth gwrs," meddai Padrig. Rhedodd ar fwrdd y llong ac yn syth at y cŵn. Roedden nhw'n cyfarth ac yn udo bob yn ail. Pan ddaeth Padrig i'w plith distawodd y cŵn. Eisteddodd Padrig yn eu canol. Er bod y storm yn dal i guro, penderfynodd y capten gychwyn ar ei daith. Roedd Padrig wedi tawelu'r cŵn beth bynnag.

"Gwyn eu byd y rhai addfwyn."
Mathew 5:5

O Dduw, gwna fi yn berson
caredig a ffeind.
Amen.

Ydych chi'n credu fod yna berthynas arbennig rhwng anifeiliaid a rhai pobl?